# Cwestiynau ac Atebion

***C: Oes opsiwn o ddewis gan Prosiect Gwyrdd?***

Nac oes, hysbysebwyd y broses caffael ar gyfer y prosiect hwn fel un sy'n dechnoleg niwtral. Dadansoddodd yr Holiadur Cyn Cymhwyster allu cwmnïau â diddordeb i ddarparu gwasanaethau trin gwastraff gweddilliol ar sail eu profiad blaenorol ac nid unrhyw ddatrysiad technoleg. Ni ofynnwyd ac ni ddarparwyd unrhyw fanylion i'w datrysiad arfaethedig ar gyfer Prosiect Gwyrdd.

O ganlyniad, mae'r holl gynigion yn cael, ac fe fyddant yn parhau i gael eu hasesu yn erbyn meini prawf cytunedig ar gyfer y broses ddialog gystadleuol a gymeradwywyd gan y Cydbwyllgor ar 10 Mawrth 2010.

***C: Pam dewiswyd ynni o wastraff fel y dechnoleg ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol?***

Roedd angen i'r Prosiect gynhyrchu Achos Busnes Amlinellol (ABA) i asesu bod o leiaf un datrysiad y gellir ei ddarparu i ofynion yr awdurdod ac ar gyfer pwrpasau meincnodi ariannol, i wirio a yw'r Prosiect yn fforddiadwy. Roedd hefyd angen yr Achos Busnes Amlinellol fel cynnig am gyllid Llywodraeth y Cynulliad. Cynhaliwyd asesiad OAAGA adeg yr ABA ar gyfer pwrpasau'r gwerthusiad opsiynau a dewiswyd Ynni o Wastraff fel y dechnoleg ddewisedig.

***C: Beth yw asesiad OAAGA?***

Mae OAAGA yn fyr am 'Offer Asesu Adnoddau a Gwastraff ar gyfer yr Amgylchedd'. Mae'r asesiad yn cymharu effeithiau amgylcheddol gwahanol systemau rheoli gwastraff dinesig. Mae OAAGA yn defnyddio asesiad cylch bywyd sy'n cynnwys yr adnoddau a ddefnyddir, cludo gwastraff ac amrediad llawn o brosesau rheoli gwastraff a'r gost amgylcheddol sydd ynghlwm wrthynt, a'r buddiannau amgylcheddol sy'n deillio ohonynt.

***C: Beth fydd yn atal awdurdodau lleol rhag anfon eu gwastraff i'w drin?***

Mae pob awdurdod lleol wedi derbyn cyfres o dargedau ailgylchu a chompostio heriol gan Lywodraeth y Cynulliad a'r flaenoriaeth ar gyfer pob un o'r partneriaid yw cwrdd â'r targedau hyn. Bydd Prosiect Gwyrdd yn darparu'r seilwaith ar gyfer trin y gwastraff gweddilliol, ar ôl ailgylchu a chompostio ac yn unol â thargedau Llywodraeth y Cynulliad a threfniadau cyllid ar gyfer y prosiect. Mae'r cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y prosiect hwn yn cynnwys meini prawf llym yn gysylltiedig â'r telerau ac amodau.

***C: Beth fydd hyd y contract?***

Disgwylir i'r contract gyda'r cynigiwr dewisedig fod tua 25 mlynedd, gydag estyniad posibl o 5 mlynedd arall.

**Mae Prosiect Gwyrdd wedi nodi y bydd tua 200 000 tunnell o wastraff yn parhau, ar ôl ailgylchu a chompostio i'r eithaf. Beth fydd yn digwydd os bydd y swm gwastraff yn lleihau?**

Mae Prosiect Gwyrdd wedi, a bydd yn parhau, i fonitro llifoedd gwastraff gydol y broses caffael. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi perfformiad ailgylchu a chompostio awdurdodau partner eraill, rhagfynegi cyfraddau ailgylchu a chompostio pellach a dadansoddi twf tai ym mhob awdurdod partner. Bydd y contract yn rhagnodi ystod tunnell is ac uchaf y bydd gofyn i'r contractwr ei thrin.

***C: A yw contract 25 mlynedd yn cyfyngu hyblygrwydd?***

Yn anochel mae contract hir dymor yn cyfyngu hyblygrwydd. Fodd bynnag, bydd y contract yn cynnwys atodlen amrywiadau manwl yn nodi sut y gellir gofyn a gwneud newidiadau i'r gwasanaethau, p'un a ydynt yn cael eu cynnig gan yr awdurdodau lleol neu'r contractwr, neu o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol. Hefyd, bydd rhaid i'r contractwr ddarparu gwasanaethau yn unol â'r fanyleb cynnyrch, (yn nodi gofynion yr awdurdodau), gydol cyfnod y contract. Bydd gallu'r datrysiadau i ddelio ag amrywiadau gyda chyfansoddiad a swm gwastraff gweddilliol gydol tymor y contract, yn elfen bwysig o'r broses werthuso.

***C: Pam bod angen cyfnod contract o 25 mlynedd?***

Mae'r lefel buddsoddiad sy'n ofynnol gan y contractwr llwyddiannus yn sylweddol, sy'n golygu am resymau fforddiadwyedd, mae contract 25 mlynedd yn y diwydiant ar gyfer caffael o'r natur hon sy'n arferol.

***C: Targed ailgylchu a chompostio Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2025 yw 70% a fydd yn golygu bod 30% yn parhau ar gyfer trin gwastraff. Pam bod Prosiect Gwyrdd yn nodi y bydd 30% i 35% yn cael ei anfon i'w drin?***

Mae pob un o'r partneriaid yn ceisio cwrdd â'r targedau ailgylchu a chompostio heriol, gydag awdurdodau partner yn ymdrechu tuag at gyfradd gyfun o 65% gan bob un ardal awdurdod lleol. Gellir adfer deunydd pellach hefyd ar gyfer ailgylchu trwy dechnolegau trin gwastraff gweddilliol ac mae'r prosiect yn disgwyl 5% arall trwy'r datrysiad trin gwastraff gweddilliol.

***C: Pa feini prawf a gafodd eu gwerthuso yn y cam 'Datrysiad Amlinellol'?***

Roedd pwyslais penodol ar asesiad technegol, darpariaeth gwasanaeth a gallu i ddarparu a chyfanrwydd y datrysiadau arfaethedig.

***C: Pa ymglymiad cymunedol a gynhelir o amgylch y safleoedd?***

Cynhelir ymglymiad cymunedol gan y cwmni preifat sy'n cyflwyno cais cynllunio a chan Dîm Prosiect Prosiect Gwyrdd. Mae'r ddwy broses hon ar wahân i'w gilydd, ac yn annibynnol i'w gilydd.

Bydd y bartneriaeth yn cynnal ymarferion mapio rhanddeiliaid o fewn radiws cytunedig a'r ddau/dri chynnig olaf sy'n nodi'r eiddo domestig, masnachol a chyhoeddus sy'n amgylchynu'r safleoedd a nodwyd. Bydd gwybodaeth yn cael ei

thargedu i'r meysydd hyn, yn darparu gwybodaeth berthnasol trwy ddigwyddiadau megis; sioeau ffyrdd, sesiynau galw heibio, cyfarfodydd preswylwyr a phost uniongyrchol. Bydd digwyddiadau rhanddeiliaid yn cael eu hysbysebu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn hawdd.

***C: Ydyn ni'n falch â'r diddordeb o'r farchnad, ar gyfer y contract hwn?***

Ydyn. Roedd tri deg chwech chwmni wedi lawrlwytho'r PQQ gyda phedwar ar ddeg yn cyflwyno'u holiadur i'r bartneriaeth. Derbyniwyd pump 'Datrysiad Amlinellol' yn dilyn y Gwahoddiad i Gyfranogi mewn Dialog (ITPD), gwerthuswyd pump datrysiad yn y cam 'Datrysiad Amlinellol' ac mae pedwar datrysiad wedi'u gwahodd i gyflwyno 'datrysiadau manwl'.

***C: Faint o amser a gymerir i ddethol cynigiwr dewisedig?***

Dan y llinell amser caffael presennol, disgwylir i'r cynigiwr dewisedig gael ei gyhoeddi yn yr Haf 2012.

**C: Beth yw'r dyddiad cychwyn gwasanaeth bwriedig?**

Y dyddiad cychwyn gwasanaeth bwriedig yw 1 Ebrill 2016.

***C: Pam bod y broses gaffael yn gyfrinachol?***

Mae'r broses gaffael yn cael ei chynnal yn unol â'r Weithdrefn Dialog Gystadleuol dan Gyfarwyddyd Caffael Sector Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd (2004/18/EC), sy'n rhan o gyfraith y DU trwy'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus SI 2006/5 a ddaw i rym o 31 Ionawr 2006.

Mae'r Egwyddorion Canllaw a amlinellir yn y Rheoliadau Contract Cyhoeddus SI 2006/5 fel a ganlyn:

Cyfrinachedd;

Peidio â gwahaniaethu;

Cydraddoldeb wrth drin yr holl gynigwyr; ac

Eglurder yn y broses caffael.

Yn dilyn cwblhau pob cam o'r broses caffael bydd y fethodoleg gwerthuso a ddefnyddir ar gyfer y cam penodol yn cael ei gyhoeddi trwy www.prosiectgwyrdd.co.uk. Bydd hyn yn caniatáu i randdeiliaid a'r cyhoedd geisio dealltwriaeth ar sut mae'r holl Ddatrysiadau wedi'u gwerthuso yn erbyn y fethodoleg a benderfynwyd ymlaen llaw. Fodd bynnag yn unol â'r egwyddorion uchod, ni fydd gwybodaeth benodol mewn perthynas â'r Datrysiadau Cyfranogwyr yn cael eu rhyddhau gan y prosiect ar unrhyw adeg.

***C: Sut gall y cyhoedd gysylltu â'r bartneriaeth?***

Bydd yr holl wybodaeth ddiweddar yn cael ei chyhoeddi ar www.prosiectgwyrdd.co.uk a gellir cysylltu â'r bartneriaeth trwy ffôn neu e-bost. Rydym yn gofyn i'r cyhoedd e-bostio info@prosiectgwyrdd.co.uk neu ffonio 02920 717523.

***C: Pwy sy'n rheoleiddio Ynni o gyfleusterau Gwastraff?***

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio'r holl Ynni o gyfleusterau Gwastraff sy'n fwy na 1 tunnell yr awr (gwastraff heb fod yn beryglus a'r holl losgwyr gwastraff peryglus)
Bydd pob cyfleuster gwastraff, gan gynnwys llosgwyr yn cael eu rheoleiddio i atal neu leihau unrhyw risgiau i'r amgylchedd neu iechyd.
Mae'r cyfleusterau hyn yn dibynnu ar drefn Rheoli Llygredd Integredig y DU (IPPC) sy'n ceisio atal, lleihau neu ddileu llygredd yn y ffynhonnell. Am yr holl wybodaeth ar reoleiddio, ewch i www.environment-agency.co.uk

***C: Beth yw'r Cyfarwyddyd Llosgi Gwastraff?***

Mae'n rhaid i bob proses sy'n cynnwys llosgi gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Llosgi Gwastraff. Mae'r gyfraith hon yn gosod rheoliadau llym ar ollyngiadau o bob math o ynni o dechnolegau gwastraff, gan gynnwys Pyrolysis, Nwyeiddio ac Ynni o Wastraff gyda Gwres a Phŵer Cyfun (Llosgi). Mae gofyn i'r technolegau hyn fonitro gollyngiadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, o leiaf, â'r cyfyngiadau yng Nghyfarwyddyd Llosgi Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd (2000/76/EC) sy'n gosod rheoliadau gollyngiadau llym ar gyfer llygryddion. Mae'r Cyfarwyddyd wedi'i roi ar waith yng Nghymru a Lloegr gan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007. O Ebrill 2008 gwelwyd y rhain yn cymryd lle'r Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000. Gellir gweld y canllaw ar y ddeddfwriaeth hon trwy'r ddolen ganlynol: http://www.defra.gov.uk/environment/policy/permits/documents/wid-guidance.pdf.

***C: Sut ydw i'n cael cwestiynau ac atebion penodol ar Ynni o gyfleusterau Gwastraff?***

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd daflen friffio gyda chwestiynau ac atebion helaeth ar Ynni o Wastraff. I gyrchu'r cwestiynau a'r atebion hyn, ewch i: http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Business/Information_Pack_-_QA_(2).pdf.

***C: Yn y gorffennol, cafwyd pryder bod ynni o gyfleusterau gwastraff yn niweidiol i iechyd dynol, ydy hyn yn wir?***

Mae Asiantaeth Diogelu Iechyd wedi cyhoeddi adroddiad ym Medi 2009, yn ymdrin â phryderon a godwyd. Gellir gweld yr adroddiad trwy'r ddolen ganlynol: http://www.hpa.org.uk/web/HPAwebFile/HPAweb_C/1251473372218